



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dogfen Eglurhaol Sgiliau Hanfodol Ehangach

Tachwedd 2011

Dogfen Eglurhaol Sgiliau Hanfodol Ehangach

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cangen Cymwysterau Galwedigaethol a Datblygu
Credyd Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth
Cymru Ty'r Afon Bedwas Rd Bedwas Caerffili CF83
8WT

Copïau ychwanegol

e- bost: essentialskillswales@wales.gsi.gov.uk

Ar gael drwy gysylltu â:

e- bost: essentialskillswales@wales.gsi.gov.uk

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru

www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Mae'r canllawiau hyn ar gael yn Saesneg hefyd.

Dogfen Gefnogol Sgiliau Hanfodol Cymru

Rhagarweiniad

Mae Sgiliau Hanfodol Cymru yn canolbwyntio ar y broses o ddatblygu'r sgiliau dros gyfnod yn hytrach nag ar gynhyrchu darn penodol o waith. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gymryd amser i ddatblygu eu sgiliau a dangos tystiolaeth o'r datblygiad hwnnw. Rhaid cymhwysu'r sgiliau hyn mewn cyd-destunau pwrpasol. Mae'r dull hwn o addysgu a dysgu sy'n seiliedig ar sgiliau yn newid sylfaenol o'r dull sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Egwyddorion asesu

Wrth ystyried cynnwys y drydedd golofn yn y safonau ('Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:'), dylai aseswyr, dilyswyr mewnol a dilyswyr allanol gofio'r canlynol:

"mae'r drydedd golofn ('Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:') yn rhestru'r sgiliau mae'n rhaid i ymgeiswyr eu cael er mwyn dangos eu bod nhw'n gymwys ar y lefel briodol. Nid rhestrau o sgiliau dylai ymgeiswyr eu cyfyngu eu hunain iddyn nhw yw'r rhain, ac ni ddylid eu hystyried yn rhestrau gwirio at ddibenion asesu. Yn hytrach, maen nhw'ndangos y sgiliau bydd angen i ymgeiswyr fod yn gymwys ynddyn nhw os ydyn nhw am gynhyrchu tystiolaeth i'r safon sy'n ofynnol."

(tudalen 4, *Sgiliau Hanfodol Cymru* (Llywodraeth Cymru 2010))

Wrth asesu portffolio, dylai aseswyr, dilyswyr mewnol a dilyswyr allanol ddod i gasgliad proffesiynol yn gyntaf a yw'r portffolio, ar y cyfan, ar y lefel a ddisgrifir yn y datganiadau 'Cynnydd' ar dudalennau 5/6, 10/11 (Cyfathrebu), 97/98 (Cymhwyso Rhif) a 195/196 (TGCh).

Os yw'r portffolio, at ei gilydd, ar y lefel briodol, ond bod yr ymgeisydd heb arddangos yr holl sgiliau a restrir yn y drydedd golofn, yna rhaid i'r asesydd/dilysydd mewnol/allanol ddod i gasgliad proffesiynol a yw'r sgiliau sydd heb eu dangos yn ddigon pwysig ac yn berthnasol i bwnc y gwaith yn y portffolio, fel bod sail, felly, dros fethu â chymeradwyo'r gwaith fel gwaith sy'n cyrraedd y safon ofynnol. Mae aseswyr a dilyswyr mewnol ac allanol yn gyfrifol am wneud asesiad proffesiynol o'r portffolio fel cyfanwaith yn hytrach na chwilio am ymgeisydd sydd wedi glynu'n gaeth at bob manylyn yn y drydedd golofn.

Ni ellir gwyro o'r dystiolaeth sy'n ofynnol yn yr ail golofn. Rhaid i'r gwaith yn y portffolio bob amser fod yn addas at y diben.

Drafftiau

Mae safonau Sgiliau Hanfodol Cymru (a'r safonau Sgiliau Hanfodol Ehangach sydd ar y gweill) yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu sgiliau yn hytrach nag ar y cynnyrch gorffenedig. Golyga hyn fod rhaid cael tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi dysgu a datblygu. Nid oes angen cynnwys pob un drafft mewn portffolio; yr hyn sy'n ofynnol yw tystiolaeth fod yr ymgeisydd wedi gwneud cynnydd ers yr asesiad cychwynnol i gyrraedd y safon y mae'n anelu ati. Er enghraifft, os darperir y dystiolaeth ar gyfer Cyfathrebu ysgrifenedig yn electronig, dylid darparu rhywfaint o nodiadau cynllunio, drafft cyntaf, drafft terfynol, ac enghreifftiau o'r gwaith cyn defnyddio gwirydd sillafu a chyn i newidiadau gael eu gwneud.

Cyfathrebu

1. C1.3.1: Gramadeg, sillafu ac atalnodi

Fel y nodir yn C1.3.1 o'r safonau, rhaid atalnodi'n gywir, yn unol â'r diffiniad ar dudalen 86. Lle bo ymgeisydd yn cyflwyno portffolio sy'n ddiffygiol yn y maes hwn, dylai athrawon a hyfforddwyr helpu'r ymgeisydd i adolygu'r hyn a ddysgwyd ganddyn nhw ac ni ddylent, ar unrhyw gyfri, gywiro'r gwallau.

Mae'r diffiniad o 'cywir' ar dudalen 91 yn esbonio fod ambell wall mewn gramadeg, sillafu ac atalnodi yn dderbyniol; dylai aseswyr ddefnyddio'u doethineb proffesiynol. Ond, os yw'r gwaith dan sylw i'w ddefnyddio'n gyhoeddus, ni ddylai fod ynddo gamgymeriadau o gwbl.

2. C1.3.1, C2.3.1, C3.3.1: Mathau o ddogfennau a'u ffurf

Mae'r diffiniad o 'priodol' ar dudalen 97, 'ffurf' ar dudalen 94, a 'mathau' ar dudalen 96. Mae'n dilyn, felly yn C1.3.1 er enghraifft, fod rhaid i'r portffolio gynnwys dwy ddogfen fer, o wahanol fathau (ee rhoi gwybodaeth, rhoi cyfarwyddyd, perswadio) a phob un ar ffurf wahanol (ee llythyr, memo, taflen). Rhaid i fath a ffurf pob dogfen fod yn addas at y diben a'r gynulleidfa.

3. C2.2.1, C3.2.1: Hyd y rhestrau darllen

Does dim ateb pendant i'r cwestiwn "Pa mor hir yw rhestr ddarllen?" Fel yn yr agweddau eraill ar yr asesiad, rhaid i aseswyr gymryd cyfrifoldeb am arfer eu doethineb proffesiynol. Bydd yn fanteisiol cymryd cyd-destun y gwaith i ystyriaeth, lefel yr annibyniaeth sydd ei angen gan ymgeiswyr ar bob lefel, ac ystod a chymhlethdod y technegau a'r sgiliau y maen nhw'n eu defnyddio.

4. Defnyddio'r rhyngrwyd

Nid ffurf yw'r rhyngrwyd fel y cyfryw. Ond mae dogfennau'n ymddangos ar y we mewn amryw ffurfiau, fel mewn print.

5. C1.1.1, C2.1.1, C3.1.1: Amrywiaeth o gyd-destunau

Gellir cael dau gyd-destun neu ragor mewn un sefyllfa. Er enghraifft, mewn ysgol, mae'r ystafell ddosbarth a'r ystafell gyffredin yn gyd-destunau gwahanol.

TGCh

1. Y gofynion tystiolaeth ar lefelau 2 a 3

Mae angen log/dyddiadur ar wahân ar gyfer pob gweithgaredd a rhaid i bob log/dyddiadur fodloni'r gofynion yng ngholofn 2 "Gofynion tystiolaeth". Serch hynny, mae'r paragraffau ar dudalen 260 (Lefel 2) a thudalen 276 (Lefel 3) yn dangos fod angen cyflwyno'r dystiolaeth yn y rhestrau bwled ar y tudalennau hyn yn y naill neu'r llall o'r ddau weithgaredd, er ei fod o bosibl yn ymddangos yn y ddau. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar dudalennau 198-199.

Caiff y logiau/dyddiaduron fod ar ffurf nodiadau ac nid oes yn rhaid iddyn nhw fodloni unrhyw safon Gyfathrebu benodol, ond rhaid iddyn nhw fod yn glir ac yn ddealladwy gan rywun nad oedd yn gysylltiedig â'r gwaith.

2. Iechyd a diogelwch

Mae angen rhoi tystiolaeth y bodlonwyd y safonau iechyd a diogelwch ar gyfer pob gweithgaredd. Dylai tystiolaeth o'r fath gael ei chynnwys yn y log/dyddiadur ar gyfer pob gweithgaredd yn y manylion a nodir ar bob lefel.

Cymhwyso Rhif

1. Rh1.2.2: defnyddio data a chyfrifiadau

Mae'r pwynt bwled cyntaf yn 'Gofynion tystiolaeth' ar gyfer Rh1.2.2 ar dudalen 144 yn dweud fod yn rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd wedi defnyddio data a gwybodaeth o Rh1.1. Mae hwn, i bob golwg, yn anghyson â phwynt 5 ar dudalen 140. Er bod yr un blaenorol yn gywir, y pwynt hanfodol yw bod y data a'r wybodaeth a ddefnyddir i wneud y cyfrifiadau yn bwrpasol ac wedi'u gosod mewn cyd-destun go-iawn.

2. Rh1.3.2: nodiadau ysgrifenedig

Nid oes yn rhaid i'r nodiadau ysgrifenedig fodloni unrhyw safon Gyfathrebu benodol, ond rhaid iddyn nhw fod yn glir ac yn ddealladwy gan rywun nad oedd yn gysylltiedig â'r gwaith. Mae mathau eraill ar dystiolaeth (ee tystiolaeth gan dyst o'r drafodaeth gyda'r ymgeisydd) yn dderbyniol os cânt eu dilysu'n briodol.

3. "cael", "cael gafael", "casglu"

Mae'r diffiniadau hyn, fel y'u diffinnir ar dudalennau 187 yn rhan annatod o'r cynnydd drwy'r lefelau, fel y disgrifir ar dudalennau 97/98, ac maent yn adlewyrchu'r raddfa o annibyniaeth (a ddiffinnir ar dudalen 187) y mae'n rhaid i ymgeiswyr ei dangos ar bob lefel.

4. Rh2.1.3: copïau o ffynonellau

Lle mae'r ffynonellau data a'r wybodaeth yn faith, mae sampl cynrychiadol yn dderbyniol.